RHAGLEN FUDDSODDI MEWN MEITHRIN GALLUEDD CYLCH (CCBIP)
Gorffennaf 9fed 2008

Y Cefndir

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi clustnodi £3 miliwn dros dair blynedd i Cylch - Rhwydwaith Ailgylchu Cymunedol Cymru, er mwyn helpu i gynyddu galluedd gweithredol yr aelodau o'r sector cymunedol. Mae CCBIP wedi ei gynllunio er mwyn helpu mentrau sy'n aelodau i wneud yr hyn sy'n angenrheidiol er mwyn caffael digon o'r adnoddau o ansawdd sydd ei hangen arnynt er mwyn bod yn gynaliadwy yng ngwir ystyr y gair. Mae hyn yn golygu bod yn gyfrifol am eu hunain ar linell waelod triphlyg o ddangosyddion amgylcheddol a chymdeithasol, yn ogystal â dangosyddion economaidd.

Bydd mentrau cymdeithasol annibynnol sy'n cael eu rheoli'n dda mewn gwell sefyllfa i allu cyfrannu at dargedau a dyheadau o ran lleihau gwastraff, ailddefnyddio, ailgylchu, compostio, ac ailddefnyddio deunyddiau eilradd sy'n cael eu hadfer. Mae hyn i gyd i'w weld yn Strategaeth Gwastraff Cymru, "Craff am Wastraff" (a gyhoeddwyd yn 2002 ac sydd ar hyn o bryd yn cael ei adolygu).

Mae'r rhaglen gefnogi hon wedi ei llunio yn ofalus iawn er mwyn rhoi i fentrau sy'n aelodau, yr hyn sydd ei angen arnynt er mwyn symud ymlaen mewn dwy ffordd bwysig.

1. Cymorth os oes angen er mwyn i asesu eu sefyllfa yn feintiol ac yn ansoddol fel bod ganddynt gynllun busnes a fydd yn eu symud ymlaen, o'i weithredu a chael adnoddau, tuag at sefydlogrwydd ariannol.
2. Y cymorth sydd ei angen er mwyn gweithredu'r cynllun hwnnw.

Yn dilyn cais tendr llwyddiannus, mae Banc Elusen wedi ei benodi gan Cylch i weinyddu'r Gronfa ar ei ran. Er mwyn tanategu gweithredu'r contract hwn, mae Banc Elusen wedi creu'r Banc Elusen yng Nghymru a fydd yn agor swyddfa yng Nghaerdydd. Wrth roi'r cytundeb, roedd y bwrdd dyfarnu yn hapus iawn â chefndir y Banc Elusen o ran buddsoddi a'i ddealltwriaeth o ofynion penodol Mentrau Cymdeithasol, yn enwedig yr angen am ystod eang a chynhwysfawr o fesurau cefnogi ac amynedd wrth eu gweithredu.

Gwirio bod sefydliad yn barod am fuddsoddiad.

Bydd y mesurau hyn sydd ar gael ar unwaith, yn cynnwys mentora ac ymgynghori, rheoli, hyfforddi ymddiriedolwyr grantiau bach ar gyfer astudiaethau dichonolrwydd, gwerthuso opsiynau, ymchwil marchnad a chynllunio busnes. Bydd cefnogaeth cyllid busnes ar gael, gan gynnwys ecwiti, cyllid asedion,

morgeisi masnachol a chyfalaf gwaith ar gael, a hynny er mwyn ateb anghenion Mentrau Cymdeithasol

Disgwylir y byddai angen i nifer o aelodau Cylch i edrych arnyn nhw eu hunain ac ailedrych ar eu nodau ac amcanion a'u cynlluniau, er mwyn cynorthwyo ymddiriedolwyr a rheolwyr i bennu eu hymrwymiadau busnes. Bydd hyn yn fan cychwyn allweddol o ran arwain penderfyniadau yn y dyfodol a sefydlu'r angen am adnoddau. Felly, rydym wedi penderfynu sefydlu "cyfnod newid" rhwng nawr a Mawrth 31ain 2009 er mwyn caniatáu i'r broses hon ddigwydd. Bydd gweithdy yng Nghynhadledd Flynyddol Cylch ac mewn digwyddiadau rhanbarthol eraill yn achlysuron addas er mwyn i aelodau i drafod ac edrych ar yr holl gyfleoedd y gall, ac y bydd y rhaglen hon yn ei darparu.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi clustnodi'r cyllid hwn er mwyn cynorthwyo gyda darpariaeth ei Strategaeth Wastraff, gan gydnabod fod aelodau Cylch yn gallu cynorthwyo mewn ffordd benodol a chost-effeithiol iawn. Mae hefyd wedi cydnabod fod angen arwain mentrau cymdeithasol tuag at gynaliadwyedd. Diben y rhaglen hon yw darparu cefnogaeth wedi ei deilwrio er mwyn darparu cefnogaeth yn unol â dyheadau'r llywodraeth. Cyhyd â bod y fenter yn gallu dangos strategaeth a chynllun gweithredu a fydd yn arwain at gynaliadwyedd, gellir cael mynediad at yr adnoddau hyn er mwyn gweithredu'r cynllun.

Nid damwain yw'r ffaith fod y rhaglen yn defnyddio cyllid benthyciad yn bennaf (ond nid yn gyfan gwbl). Bydd ad-dalu cyllid benthyciad yn gofyn am ragor o feddwl difrifol ynghylch cynaliadwyedd, a bydd hyn yn cynorthwyo ymddiriedolwyr i weithredu a chynllunio mewn ffordd sy'n addas ar gyfer busnes. O'i ddefnyddio'n gadarnhaol, gall credyd fod yn adnodd sy'n rhoi gallu. Bydd angen gwneud y mwyaf o ran effeithlonrwydd ymhob agwedd o'u gwaith fel bod trefniadau contract yn cael eu cyflawni gan sicrhau gwerth gorau. Bydd hyn yn berthnasol i wastraff, ailgylchu, neu unrhyw weithgareddau eraill a fydd yn ennill arian i sefydliadau sy'n aelodau o Cylch.

Mae'r rhaglen hon y mae Cylch a'r Banc Elusen yn ei chynnig, yn mynd i alluogi nifer o sefydliadau Cylch i dyfu mewn ffordd nad oedd yn cael ei hystyried yn bosib cyn hyn. Er mwyn gwneud defnydd llawn o'r cyfle hwn, mae'n bosib y bydd hi'n fuddiol edrych eto ar gynlluniau ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hir, trafod posibiliadau â phartneriaid neu bartneriaid posib a gwirio contractau newydd allay fod ar gael. Nid yw'r holl bosibiliadau hyn yn cylchdroi o gwmpas twf. Mae'n bosib y bydd arallgyfeirio yn llwybr mwy diddorol neu berthnasol ar gyfer sefydliad, os ydyw i chwarae ei ran yn llawn yn y ddarpariaeth gwasanaeth yn lleol. Mae gan aelodau Cylch lawer i'w ddysgu gan oddi wrth ei gilydd, a bydd yr adnoddau hyn yn galluogi trosglwyddo arfer da o un sefydliad i'r llall. Gyda'r gronfa hon yn ei lle, bydd adnoddau ar gael ar gyfer bob syniad da, os gellir dangos eu bod yn arwain yn y pen draw at gynaliadwyedd.

Bydd y rhaglen hon ar gael ar gyfer busnes ar unwaith.

Dylai ymgeiswyr gysylltu â Cylch drwy anfon e-bost at finance@cylch.org.uk neu drwy anfon llythyr at Kayle Martin, Cylch CBIP, 113, Heol y Gadeirlan, Pontcanna, Caerdydd CF11 9PH yn y lle cyntaf, er mwyn darparu tystiolaeth o gymhwyster i dderbyn y gwahanol fathau o gefnogaeth sydd ar gal drwy'r rhaglen. Bydd swyddogion maes Cylch ar gael i gynorthwyo gyda'r broses hon os bydd angen.

Rhestr wirio cymhwyster

Rydym yn annog aelodau i sicrhau bod y dogfennau canlynol ar gael, a'u bod wedi eu diweddaru cyn cyflwyno cais i Cylch am wirio cymhwyster

Os gwelwch yn dda, peidiwch ag anfon y wybodaeth hon tan i ni ofyn amdani.

- Copi wedi ei gadarnhau o ddogfen cyfansoddiad y sefydliad. Yn achos cyrff sydd wedi eu hymgorffori, bydd hyn yn y Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithas, gyda dogfennau yn dystiolaeth o unrhyw adolygiadau.
- Copi o'r Dystysgrif Cofrestru Elusen yn achos elusennau
- Copi o'r Datganiad Budd Cymunedol yn achos Cwmni Budd Cymunedol (CIC)
- Rhestr gyfan o'r bwrdd rheoli cyfredol- Ymddiriedolwyr yn achos elusen gofrestredig.
- Copi o gofnodion pedwar cyfarfod diwethaf Bwrdd Rheoli/Ymddiriedolwyr.
- Copi o gyfrifon a gyhoeddwyd ar gyfer y tair blynedd ddiwethaf os yw hynny bosib.
- Cop o'r Llawlyfr Polisïau. Dylai gynnwys y canlynol o leiaf:-
    - Iechyd a Diogelwch
    - Cyflogaeth – Adnoddau Dynnol
    - Cyfleoedd Cyfartal
    - Yr Amgylchedd
    - Yr Iaith Gymraeg
    - Gwirfoddoli
    - Pwrcasu
    - Cvau personél allweddol

•Siart trefniadaeth y camni a rheolaeth, gan gynnwys y berthynas ag unrhyw is-gwmnïau, (rhaniad a pherchnogaeth cyfranddaliadau lle bo hynny'n berthnasol).